Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Absenoldeb a Rennir gan Rieni

22 Awst 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

> *Ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf 2015 yn gofyn am gopi o'ch polisi absenoldeb a rennir gan rieni ond nid oedd wedi'i gwblhau ar y pryd. A ydych bellach yn gallu darparu copi i mi?*
>
> *A allwch ddweud wrthyf hefyd sawl aelod o staff sydd wedi gofyn am absenoldeb a rennir gan rieni neu wedi cymryd absenoldeb o'r fath yn eich sefydliad ers mis Ebrill 2015.*

Rhyddhawyd y polisi absenoldeb a rennir gan rieni fel rhan o'r ymateb hwn.

Os hoffech gael copi, e-bostiwch assembly-accesstoinformation@cynulliad.cymru

Mae dau o bobl wedi gofyn am absenoldeb a rennir gan rieni ac wedi cymryd absenoldeb o'r fath ers Ebrill 2015.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliad.cymru/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF